

CYDRADDOLDEB
MENYWOD
NAWR:
Y SEFYLLFA
YNG NGHYMURU
HEDDIW AR
OFAL DI-DÂL





RHAGAIR

Sefydlwyd RhCM Cymru yn 2010 i gynrychioli a chefnogi sefydliadau niferus ac unigolion sy'n gweithio i ddatblygu hawliau menywod a hyrwyddo cydraddoldeb ledled Cymru. Ers hynny, rydym wedi ennill presenoldeb ar y llwyfan leol a byd-eang, gan ddarparu llais unedig ar faterion sy'n bwysig i fenywod a merched yng Nghymru.

Rydym ni'n dwy, fel pob menyw, wedi wynebu adfyd. Rydym wedi dod o hyd i'n llais personol ac wedi meithrin yr hyder i arwain y ffordd ar gyfer dyfodol holl fenywod Cymru y neid rôl fel Cyd-gadeiryddion. Ein gweledigaeth i fenywod a merched yng Nghymru yw cael llais ar faterion sy'n bwysig iddynt.

Er mwyn gwireddu hyn, rydym wedi comisiynu cyfres o friffiadau ymchwil sy'n tynnu sylw at faterion lle mae menywod yn teimlo yr effeithir arnynt fwyaf gan anghydraddoldeb. Mae'r ymchwil hwn yn rhoi cyfle am ddeialog uniongyrchol rhwng menywod a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Yn y bôn, mae'n tynnu sylw at faterion anghydraddoldeb sydd dal yn bodoli yng Nghymru heddiw, gan sicrhau y cant eu trafod er mwyn galluogi newid..

Rydym yn rhagweld y bydd y cyfres yn parhau fel sail i waith RhCM i fynd i'r afael ag anghenion mwyaf blaenllaw menywod yng Nghymru.

Sarah Rees & Monika Borkowska

(Co-Chairs, WEN Wales)





CYFLWYNIAD

Gofal di-dâl yw un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu menywod, ac mae'n bwnc sy'n cael ei godi dro ar ôl tro gan fenywod o bob cefndir. Ni waeth beth yw lefel yr addysg, y diwylliant na'r lleoliad, bydd bron pob menyw yn ofalwr ar ryw adeg yn ei bywyd. Mae ein cymdeithas wedi'i hadeiladu ar y tybiad y bydd menywod yn ymgymryd â'r baich hwn yn awtomatig yn hytrach na dynion, ac mae ein haelodau wedi dweud wrthym sut mae gofal di-dâl wedi cael effaith ar eu gallu i ennill arian, eu hiechyd a'r risgiau sy'n eu harwain at dlodi.

Mae gofal di-dâl yn cynnwys cynifer o faterion sy'n bwysig i fenywod; dyma'r rheswm rydym yn gyfrifol am y rhan fwyaf o weithwyr rhan-amser (cyflogaeth cyflog isel heb fawr o gyfle am gynnydd), yn treulio mwy o amser o'r gweithlu ac yn cael anhawster yn cynilo am bensiwn. Mae menywod yn cymryd y baich am anghydraddoldebau sylweddol gan gefnogi'r economi; mae RhCM Cymru'n awyddus i gydnabod y gwerth y mae menywod yn ei roi i Gymru.

Mae ein briffiad ar amrywiaeth yn tynnu sylw at y tebygolrwydd y gallai'r boblogaeth menywod hŷn, yng Nghymru gynyddu 150% dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae'r effaith bosib ar ofal yn enfawr: bydd y gost o ddarparu gofal yn faich ar wariant cyhoeddus, yn ychwanegu pwysau at "genhedlaeth y frechdan" o fenywod sy'n gofalu am wyrion ac wyresau a pherthnasau hŷn, ac yn cynyddu'r galw ar y gwasanaeth iechyd.

Mae bron pob menyw'n darparu gofal di-dâl ar ryw adeg yn ei bywyd. Mae gan y mwyafrif o fenywod o leiaf un plentyn mae'n cymryd cyfrifoldeb pennaf drosto, ac mae gan fenywod gyfle 50:50 o dreulio cyfnod sylweddol yn gofalu am oedolyn erbyn iddynt gyrraedd 59 oed.

Mae gofal di-dâl yn cael effaith fwy dwys ar fywydau menywod nag unrhyw factor arall.¹ Mae'n effeithio ar ddysgu, cyflogaeth, incwm ac iechyd menywod, eto, yn syfrdanol, nid ydym yn gwybod llawer am effaith gofal di-dâl ar fywydau menywod yng Nghymru.

Naill ai nad yw data ac ymchwil yn ystyried rhyw, er enghraifft nid yw'n gwahaniaethu rhwng gofalwyr gwrywaidd a benywaidd, neu y mae ledled y DU. Mae diffyg data penodol ar famau yng Nghymru ac yn y DU.

Nid yw gofal di-dâl yn cael ei gefnogi gan gymdeithas. Dengys y trosolwg hwn fod menywod yng Nghymru'n cario baich trwm gofal, weithiau â pharodrwydd, weithiau ddim, a'u bod yn talu pris uchel am eu rôl ofalu.



PWY SY’N GOFALU?

Gofal plant

Mae oddeutu wyth o bob deng menyw yn y DU a anwyd ers canol y 1950au yn rhoi genedigaeth yn ystod eu bywydau.² Yn 2011, roedd oddeutu hanner (45%) o’r holl fenywod yng Nghymru 16-64 oed yn byw mewn aelwyd â phlentyn dibynnol.³ Roedd dros chwarter ohonynt (27%) yn byw mewn aelwydydd segl.

Menywod sy’n gyfrifol yn bennaf am ofalu am blant. Telir 94% o hawliadau budd-dal plant y DU i fenywodof, ⁴ ac **mae bron hanner y mamau yng Nghymru’n dweud eu bod yn gyfrifol neu’n bennaf gyfrifol am ofal plant (o gymharu â 4% o dadau).** ⁵ Yn y DU, mae menywod yn gwneud 70% o dasgau’r cartref, ⁶ gyda swm y gwaith tŷ a wneir gan fenywod yn cynyddu pan fo ganddynt blant dibynnol. ⁷

Mae rolau gofalu menywod yn parhau pan fyddant yn famau-cu. Yn ôl dau draean o famau-cu ym Mhrydain, maent yn gofalu am eu hwyrion a’u hwyresau, gyda 19% yn darparu o leiaf 10 wythnos o ofal yr wythnos. ⁸ Mae gan 5,000 o famau a thadau-cu yng Nghymru (mamau-cu yn bennaf) eu hwyrion neu eu hwyresau’n yw gyda hwy (o’r enw gofal carennydd). ⁹

Gofal di-dâl i oedolion

Mae cyfran uwch o fenywod yng Nghymru’n darparu gofal di-dâl i oedolyn nag mewn rhannau eraill o’r DU. Yn 2011, darparodd 13.8% o fenywod yng Nghymru ofal di-dâl i oedolyn sy’n berthynas, yn gyfaill, yn gymydog neu’n berson arall oherwydd afiechyd neu anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir, neu broblemau oherwydd henaint. ¹⁰ Mae cyfran y menywod sy’n darparu gofal di-dâl yn cynyddu’n raddol gydag oedran, gyda’r mwyaf o ofal yn cael ei ddarparu pan fo menywod yn eu 50au a’u 60au lle mae mwy na chwarter o fenywod (26%) yn darparu gofal di-dâl.

Gall gofal di-dâl fod yn anodd – mae oddeutu **1 o bob 20 o fenywod yng Nghymru’n darparu 50 awr neu’n fwy o ofal di-dâl yr wythnos** – mwy na chwarter o’r holl ofalwyr – gyda menywod 50-64 oed yn fwy tebygol o ddarparu’r swm hwn o ofal di-dâl. Yn y DU, mae gan fenywod gyfle 50:50 o ddarparu gofal di-dâl erbyn 59 oed ¹¹ – gyda mwy o ofal di-dâl yng Nghymru, mae’r perygl yng Nghymru hyd yn oed yn fwy.





GOFALU AC IECHYD

Gall rolau gofalu menywod gael effaith negyddol ar eu hiechyd. Nid oes llawer o dystiolaeth am iechyd mamau, yn hytrach na chyflyrau oherwydd beichiogrwydd. Yn ystod beichiogrwydd a'r flwyddyn gyntaf ar ôl rhoi genedigaeth, bydd 10-20% o fenywod yn y DU yn datblygu afiechyd meddwl,¹² gydag iselder a phryder fwyaf cyffredin, a'r ffigurau'n llawer uwch i famau ifanc.¹³

Mae darparu gofal di-dâl i oedolion yn cael effaith sylweddol ar iechyd menywod.

Yng Nghymru, mae menywod sy'n darparu 50 awr neu'n fwy yr wythnos o ofal fwy na ddwywaith mor debygol â'r rhai nad oeddent yn darparu gofal di-dâl o ddweud nad oedd eu iechyd yn dda (45.7% o'i gymharu â 22.0%).¹⁴ Mae'r effaith o ddarparu gofal di-dâl yn arbennig o uchel ar y 15,400 o fenywod ifanc yng Nghymru sy'n gofalu (dan 24 oed), sy'n fwy na phedair gwaith yn debygol na menywod ifanc nad ydynt yn darparu gofal di-dâl o ddweud nad yw eu hiechyd yn dda.¹⁵ Mae gofalywyr yng Nghymru o'r ddau ryw hefyd yn dweud bod ganddynt anhawster yn cysgu a lefelau uchel o bryder a straen,¹⁶ ac maent yn fwy tebygol o smygu na'r rhai nad ydynt yn gofalu.¹⁷

4. GOFALU A DYSGU

Mae cyfrifoldebau gofalu'n cyfyngu ar eu gallu i ddysgu a gall creu anawsterau i fenywod sy'n dysgu.

Yn yr ysgol, dengys tystiolaeth ledled y DU fod gan ferched sy'n beichiogi gyflawniad is na merched eraill, gan adlewyrchu materion penodol o ran beichiogrwydd a bod yn fam ifanc yn ogystal â phrofiadau negyddol presennol o agweddau at ddysgu.¹⁸ Mae mamau sy'n fyfyrwyr addysg uwch a phellach yn y DU yn dweud am anawsterau ariannol a phroblemau dod o hyd i ofal plant addas, yn ogystal â materion newid hunaniaeth, ac mae oddeutu dau draean yn ystyried gadael eu cwrs.¹⁹

Mae gofalywyr ifanc, gan gynnwys merched, yn fwy tebygol na'u cyfoedion i brofi anawsterau yn yr ysgol oherwydd eu rôl ofalu.²⁰ Mae gofalywyr sy'n fenywod ifanc, yn enwedig y rhai sy'n darparu 50 awr neu'n fwy o ofal di-dâl, yn llai tebygol o gymryd rhan mewn addysg bellach ac uwch yn hytrach na'r rhai nad ydynt yn gofalu.²¹ Mae dau draean o ofalwyr sy'n fyfyrwyr o'r ddau ryw yn ei chael hi'n anodd i gydbwyso eu hymrwymadau, gan deimlo bod eu rôl ofalu'n cael effaith negyddol ar eu dysgu, ac mae mwy na hanner yn ystyried gadael eu cwrs.²² **Ymhlith oedolion, mae gofalywyr di-dâl yn llai tebygol o gymryd rhan mewn unrhyw ddysgu na'r rhai nad ydynt yn gofalu.**²³





GOFAL A GWAITH CYFLOGEDIG

Mae gofalu am blant yn cael effaith enfawr ar fywyd gwaith menywod. Er gwaethaf cynydd sylweddol yng nghyfradd gyflogaeth menywod, mae cyfran uchel yn gadael gwaith cyflogedig ar ôl iddynt gael plentyn. Yn y DU, mae cyfran y mamau 16-24 oed mewn gwaith cyflogedig oddeutu hanner tadau'r un oedran. Mae cyfran y mamau 25-34 oed sydd mewn gwaith cyflogedig yn uwch ond dal oddeutu dau draean nifer y tadau.

Mae cyflogaeth mamau'n cynyddu wrth i'w plant heneiddio, felly erbyn i'w plentyn ieuengaf gyrraedd 9 oed, mae tri chwarter mamau'n gweithio. Mae mamau sengl yn llawer llai tebygol o weithio na menywod mewn paru – **mae 39% o famau sengl â phlentyn dan 3 oed mewn cyflogaeth o'i gymharu â 65% o famau mewn paru,**²⁴ er bod y bwlch yn culhau wrth i oedran y plentyn gynyddu.²⁵

Yr effaith fwyaf yw ar oriau gwaith. Yn y DU gyfan, mae 37% o famau'n gweithio rhan-amser ac mae 30% yn gweithio amser llawn, o'i gymharu â 6% o dadau sy'n gweithio rhan-amser ac 82% sy'n gweithio amser llawn.²⁶ Mae mamau plant ifanc yn llai tebygol o weithio amser llawn – dim ond 22% o fenywod â phlentyn 1-3 oed sy'n gweithio amser llawn²⁷

Mae menywod â phlant dibynnol hefyd yn gweld ei fod hi'n cymryd amser hwy i ddod o hyd i waith cyflogedig na menywod heb blant – mae 59% o famau diwaith yng Nghymru wedi bod yn ddiwaith am fwy na 6 mis o'i gymharu â 45% o fenywod hen blant dibynnol

Mae gofal di-dâl oedolyn hefyd yn cael effaith enfawr ar fywydau gwaith. Yng Nghymru, mae hanner gofawyr benywaidd yn llwyddo i gyfuno'u rôl ofalu â gwaith cyflogedig.²⁸

Mae menywod sy'n gofalu sydd â swydd bron deirgwaith yn fwy tebygol i weithio rhan-amser na dynion sy'n gofalu (46% o'i gymharu â 16%),²⁹ ac mae menywod sy'n gofalu sy'n darparu mwy o oriau o ofal di-dâl na ofalwyr sy'n ddynion sy'n gweithio. Mae cyffredinrwydd gofal di-dâl yn golygu bod 1 mewn 20 (5%) o gyfanswm y gweithlu benywaidd yn darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos.³⁰

Mae cyfrifoldebau gofalu hefyd yn cynyddu tebygolrwydd menyw'n gadael ei swydd – yn y DU, gadawodd 17% o fenywod diwaith eu swyddi diwethaf i ofalu am rywun, o'i gymharu ag 1% yn unig o ddynion.³¹ Yng Nghymru, dywedodd fwy na hanner (53%) o ofalwyr a oedd wedi gadael eu swyddi eu bod wedi gadael oherwydd straen cydbwysu popeth.³²



GOFAL AC INCWM

Mae mamolaeth yn costio llawer i fenywod. Mae hyd yn oed seibiant byr o waith cyflogedig yn golygu bod menywod yn colli enillion tymor byr a hir oherwydd bod colli enillion tymor byr a hir oherwydd bod amser o'r gweithlu'n lleihau eu profiad a'u rhagolygon am ddyrchafiad. Mae mamau sy'n gweithio rhan-amser yn colli allan oherwydd bod swyddi rhan-amser gan amlaf yn talu llai na swyddi amser llawn. O ganlyniad, yn y DU, **mae menywod â phlant dibynnol yn ennill 66% yn unig o enillion dynion pob awr a 53% o'u henillion wythnosol.**³³ Mae enillion gydol oes menywod hefyd yn dioddef, gyda'r effaith fwyaf ar fenywod heb gymwysterau addysgol a mwy nag un plentyn – mae menyw â dau o blant heb unrhyw gymwysterau yn colli 58% o'i henillion gydol oes o'i gymharu â menyw heb blant oherwydd mamolaeth.³⁴

Mae darparu gofal di-dâl yn cyfyngu ar botensial ennill menyw, oherwydd bod llawer yn parhau mewn swyddi lefel is nag y byddent fel arall, gan leihau eu horiau gwaith neu'n rhoi'r gorau i waith ac yn dibynnu ar fudd-daliadau er mwyn gofalu. Yng Nghymru, mae oddeutu 23,000 o fenywod 16-64 oed yn derbyn budd-daliadau cymdeithasol oherwydd eu bod yn ofalwr sy'n darparu mwy na 35 awr o ofal ac yn ennill llai na £102 yr wythnos (ar ôl treth a didyniadau costau gofal). Gwerth Lwfans Gofal yw £61.35 yr wythnos, ac nid oes digon o bobl yn ei hawlio.³⁵

Mae incwm isel yn achosi cryn galedi i ofalwyr. Yng Nghymru, mae oddeutu dau draean (63%) o fenywod a dynion sy'n gofalu'n dweud eu bod yn cael anhawster fforddio biliau cartref ac mae oddeutu traean yn torri'n ôl ar wres a bwyd.³⁶

Mae gofalu hefyd yn peri canlyniadau ariannol tymor hir, oherwydd bod incwm isel gofaluwr yn golygu na allant ddarparu ar gyfer eu hanghenion yn y dyfodol. **Yng Nghymru, dywedodd mwy na thraean o ofalwyr sy'n fenywod ac yn ddynion (36%) oedd wedi gadael gwaith i ofalu na fyddent yn gallu cynilo ar gyfer pensiwn.**³⁷ Mae gofaluwr nad ydynt yn gallu cyfrannu i bensiwn drwy gynllun cyflogwr neu eu cynilion eu hunain yn wynebu henaint yn dibynnu ar bensiwn y wladwriaeth. Yn ogystal, dywedodd bron hanner gofaluwr o'r ddau ryw nad oeddent yn gallu cynilo ar gyfer eu dyfodol oherwydd rhoi'r gorau i'w swyddi.³⁸





BETH NESAF?



Sut rydym yn creu Cymru sy'n gwerthfawrogi cyfraniad gofaluwr di-dâl i'r gymdeithas?



Wrth i fenywod heneiddio, mae eu cyfrifoldebau gofalu'n cynyddu'n sylweddol. Pa fesurau rydym yn eu rhoi ar waith i'w cefnogi?



Yn aml, mae bod yn ofalwr di-dâl yn gwthio menywod i dlodi. Sut gall Cymru sicrhau nad yw hyn yn digwydd i genedlaethau'r dyfodol?

¹ Metcalf, H. (2009) Pay Gaps across the equality strands: a review. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013) Cohort Fertility 2012, Tabl 2. Yn: http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171778_340636.pdf

³ Cyfrifiad y Boblogaeth 2011, Tabl DC1112EWla Age of youngest dependent child by household type by sex by age, trwy NOMIS.

⁴ Cymdeithas Fawcett (n.d.) Benefits. Yn: <http://www.fawcettsociety.org.uk/2013/02/benefits/>

⁵ Chwarae Teg (2013) A Woman's Place. At: <http://chwaraeteg.com/a-womans-place/>

⁶ Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (2013) A Woman's Work is Never Done. At: <http://www.esrc.ac.uk/news-and-events/press-releases/27163/a-womans-work-is-never-done.aspx>

⁷ IPPR (2012) Tax relief for cleaners and nannies would entrench gender injustice for middle earners. At: <http://www.ippr.org/news-and-media/press-releases/eight-out-of-ten-married-women-do-more-housework-than-their-husbands>

⁸ Wellard, S. (2013) Doing it all? Grandparents, childcare and employment: An analysis of British Social Attitudes Survey Data from 1998 and 2009. Grandparents Plus.

⁹ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2012) Gofal Carrennydd yng Nghymru – Arweiniad Cyflym.

¹⁰ Cyfrifiad Poblogaeth 2011, Tabl DC1112EWla DC3303EWr – Provision of unpaid care by general health by sex by age (regional), trwy NOMIS.

¹¹ Carers UK (2014) Facts about Carers.

¹² Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (2014) News: Address gaps in mental health care for new mothers, 17 Rhagfyr At: <https://www.nice.org.uk/news/article/address-gaps-in-mental-health-care-for-new-mothers>

¹³ Jenkins, K (2013) Young Mums Together, y Sefydliad Iechyd Meddwl. Yn: <http://www.mentalhealth.org.uk/content/assets/PDF/publications/young-mums-together-report.pdf>

¹⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013) The gender gap in unpaid care provision: is there an impact on health and economic position? Yn: http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171776_310295.pdf

¹⁵ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013) The gender gap in unpaid care provision: is there an impact on health and economic position? Yn: http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171776_310295.pdf

¹⁶ Gofaluwr Cymru (2014) Sefyllfa Ofalu 2014.

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2013) Arolwg Iechyd Cymru 2011: Iechyd Gofaluwr, SB 42/2013.

¹⁸ Evans, J. with Slowley, M (2010) Not the end of the story - Supporting teenage mothers back into education. Barnardos.

¹⁹ NUS (dim dyddiad) Meet the parents - the experience of students with children in further and higher education.

²⁰ Sempik, J and Becker, S (2013) Young Adult Carers at School: experiences and perceptions of caring and education. Ymddirideolaeth Gofaluwr.

²¹ NUS (dim dyddiad) Learning with care – experiences of student carers in the UK. National Union of Students.

²² NUS (dim dyddiad) Learning with care – experiences of student carers in the UK. National Union of Students.

²³ Yr Adran Busnes, Blaengaredd a Sgiliau (2012) Arolwg Dysgwyr Oedolion Cenedlaethol, 2010.

²⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol(2013) Women in the Labour Market. Yn: http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171776_328352.pdf

²⁵ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013) Families and Households. Yn : http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171778_332633.pdf

²⁶ SYG (2012) Gender and Work Patterns. Yn: <http://www.ons.gov.uk/ons/about-ons/business-transparency/ad-hoc-data/pre-june-2012/gender-and-working-patterns.html>

²⁷ SYG (2013) Families and Households. Yn: http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171778_332633.pdf

²⁸ Tabl Cyfrifiad Poblogaeth 2011 DC3306EW – Provision of unpaid care by number of people in household with a long-term health problem or disability by economic activity by sex, trwy NOMIS.

²⁹ Tabl Cyfrifiad Poblogaeth 2011 DC3306EW – Provision of unpaid care by number of people in household with a long-term health problem or disability by economic activity by sex, trwy NOMIS.

³⁰ Office for National Statistics (2013) The gender gap in unpaid care provision: is there an impact on health and economic position? Yn: http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171776_310295.pdf

³¹ Ben-Galim, D & Silim, A. (2013) The Sandwich Generation: Older Women Balancing Work and Care. IPPR.

³² Gofaluwr Cymru(2014) Sefyllfa Ofalu 2014.

³³ Woodroffe, J (2009) Not having it all: How motherhood reduces women's pay and employment prospects. Cymdeithas Fawcett.

³⁴ Metcalf, H. (2009) Pay Gaps across the equality strands: a review. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

³⁵ Turn2Us (2011) Nearly half of carers not claiming Carer's Allowance, despite skipping meals and incurring debt http://www.turn2us.org.uk/about_us/media_centre/press_releases/carers_survey.aspx

³⁶ Gofawyr Cymru (2014) Sefyllfa Ofalu 2014.

³⁷ Gofawyr Cymru (2014) Sefyllfa Ofalu 2014.

³⁸ Gofawyr Cymru (2014) Sefyllfa Ofalu 2014.